**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C22/0134/16/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **15/02/2022** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Llandygai** |
| **Ward:** | **Llandygai** |
| **Bwriad:** | **Datblygiad cyfleuster tanwydd *Bio* - nwy naturiol wedi ei gywasgu ar gyfer cerbydau gan gynnwys pympiau tanwydd, compownd cyfarpar offer, creu mynedfeydd newydd, tirlunio a datblygiad cysylltiedig.** |
| **Lleoliad:** | **Plot C1, Parc Bryn Cegin, Llandygai , Bangor, LL57 4BG** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Gohiriwyd y cais ym Mhwyllgor Cynllunio 11 Ebrill, 2022 er mwyn cynnal ymweliad safle.

1.2 Cais llawn ar gyfer datblygiad cyfleuster tanwydd bio-nwy naturiol wedi ei gywasgu ar gyfer cerbydau gan gynnwys pympiau tanwydd, compownd cyfarpar offer, creu mynedfeydd newydd, tirlunio a datblygiad cysylltiedig.

1.3 Mae'r cynnig yn ymwneud â datblygu cyfleuster tanwydd cerbydau Bio-CNG (nwy naturiol bio cywasgedig) yn cynnwys ynysoedd pwmp tanwydd, compownd peiriannau, creu mynedfa newydd a datblygiad cysylltiedig ar Lain C1 ar Stad Ddiwydiannol Bryn Cegin sydd wedi ei leoli ar gyrion Dinas Bangor.

1.4 Byddai'r cyfleuster yn gwasanaethu gweithredwyr logisteg a dosbarthu yn yr ardal leol a gallai gynnwys gweithredwyr yr ystâd ddiwydiannol ei hun yn y dyfodol ynghyd ag Ystâd Ddiwydiannol Llandygai gyfagos. Byddai'r cyfleuster yn gweithredu 24 awr y dydd, heb staff gyda gyrwyr yn actifadu'r pympiau trwy ffob awtomatig.

1.5 Byddai'r gwaith arfaethedig yn cael ei amgáu gan ffens diogelwch palisâd 2.4m o uchder gyda'r gwaith yn cynnwys 4 x teledu cylch cyfyng/colofnau goleuo 4.275m o uchder, ystafell switsh, 2 gywasgydd aer, newidydd HV/LV, generadur wrth gefn, 2 oerydd aer, 2 gywasgydd nwy, 12 modiwl storio nwy, peiriant llwytho nwy cabinet dadlwytho trelar, panel rheoli tanwydd a maes parcio. Bydd is-orsaf a mesurydd nwy hefyd yn cael eu lleoli i'r gogledd o'r compownd gwaith. Mae bwriad darparu ffens acwstig 3.5m o uchder o gwmpas y safle - rhan ohono uwchben y wal gynnal.

1.6 Yn ogystal â'r agweddau uchod o'r cynnig, byddai'r cyfleuster hefyd yn cynnwys ffens v-mesh du 2.4m ar hyd y ffin ddeheuol, ynghyd â ffens bren estyll caeedig 2.8m acwstig gyda phlanhigion i sgrinio'r safle rhag eiddo cyfagos ar hyd y ffin ogleddol a dwyreiniol. Bydd y pwyntiau mynediad yn aros ar agor bob amser er mwyn osgoi unrhyw ymyrraeth i gerbydau wrth fynd i mewn ac allan o'r cyfleuster. Gwasanaethir y safle trwy ffordd wasanaethu fewnol bresennol i'r gorllewin lle cynigir mynedfeydd ac allanfeydd newydd.

1.7 Mae lliwiau'r gorffeniadau yn gymysgedd o liw oddi ar wyn, lliw dur wedi ei galfaneiddio, du a gwyrdd tywyll.

1.8 Mae'r safle'n gorchuddio arwynebedd o tua 0.7ha ac yn golygu datblygu llain wag o fewn y stad ddiwydiannol. I'r gorllewin a'r de mae'r stad ddiwydiannol, i'r dwyrain mae tir amaethyddol ac i'r gogledd mae eiddo preswyl a adnabyddir fel 1 i 3 Rhos Isaf/Orme View. Mae'r safle wedi'i ddynodi o fewn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) Ynys Môn a Gwynedd 2017 fel Safle Cyflogaeth Strategol a Ddiogelir Rhanbarthol.

1.9 Mae'r dogfennau canlynol wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais:

- Asesiad Effaith Sŵn
- Manylion Draenio
- Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu
- Cynllun Goleuo Allanol
- Asesiad Ecolegol Cychwynnol ac Asesiad Ymlusgiad
- Asesiad Trafnidiaeth
- Manylion Tirweddu

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS1 - Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig

PS4 - trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

PS5 - datblygu cynaliadwy

PS6 - lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd

TRA2 - safonau parcio

TRA4 - rheoli effeithiau trafnidiaeth

PCYFF1 - ffiniau datblygu

PCYFF2 - meini prawf datblygu

PCYFF3 - dylunio a siapio lle

PCYFF4 - dylunio a thirlunio

PS13 - darparu cyfleoedd ar gyfer economi lewyrchus

CYF1 - diogelu, dyrannu a chadw tir ac unedau ar gyfer defnydd cyflogaeth

AT1 - ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi cofrestredig

PS20 - gwarchod a, lle bo'n briodol, gwella asedau treftadaeth

AMG5 - cadwraeth bioamrywiaeth leol.

Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy, 2019

Canllaw Cynllunio Atodol: Newid defnydd o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu (Ionawr, 2021).

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio

Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Dim hanes cynllunio diweddar ar y safle penodol yma, ond mae hanes cynllunio cyffredinol ar gyfer datblygu safle diwydiannol Bryn Cegin.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Uned Drafnidiaeth: | Heb eu derbyn |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Dim sylwadau i'w cynnig |
| Dŵr Cymru: | Ar ôl adolygu'r cynnig, rydym yn nodi nad oes angen cysylltiad dŵr budr i'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn nodi o'r ffurflen gais y bwriedir gwaredu'r dŵr ffo wyneb drwy'r system garthffosiaeth gyhoeddus.<br><br>Byddem yn cynghori bod y system garthffosiaeth gyhoeddus yng nghyffiniau'r safle yn un ar gyfer dŵr budr yn unig ac felly byddem yn cynghori nad oes caniatâd i waredu dŵr ffo wyneb i mewn i garthffosiaeth dŵr budr. Bydd angen cael dull amgen ar gyfer gwaredu dŵr wyneb. Yn sgil yr uchod, byddem yn gwneud cais, os ydych yn bwriadu rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer y datblygiad |

| | |
| --- | --- |
| | uchod, bod yr Amod a'r Nodiadau Cynghori isod yn cael eu cynnwys ar y caniatâd i sicrhau na cheir effaith andwyol ar drigolion presennol neu'r amgylchedd nac i asedau Dŵr Cymru.<br><br>Amod: Ni chaiff unrhyw ddŵr wyneb a/neu draeniad tir gysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus<br><br>Rheswm: Er atal y system garthffosiaeth gyhoeddus rhag gorlwytho'n hydrolig, er mwyn amddiffyn iechyd a diogelwch trigolion ac i sicrhau na wneir niwed i'r amgylchedd. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu'r wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r sŵn. Rydym yn derbyn yr hyn y mae'r ymgynghorydd sŵn wedi'i ddweud. Rhaid asesu pob safle yn unigol ynghyd â'r lefelau sŵn, safle mae'r datblygiad yn cael ei osod ar fesurau lliniaru sydd i'w gweithredu.<br><br>Mae'r safle yma wedi ei nodi fel stad Ddiwydiannol ac mae'r wybodaeth ychwanegol wedi mynegi ni fydd y lefelau o'r safle ddim am gael effaith negyddol ar y tai preswylydd. Er y bydd lefel y sgôr 4dB yn uwch na'r lefel sŵn cefndir presennol ar y sefyllfa waethaf bosibl pan gaiff ei hasesu gan BS4142, byddai'r lefelau'n dal i gydymffurfio â'r lefelau a amlinellwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd pe bai'r holl fesurau lliniaru sŵn yn cael eu gweithredu.<br><br>Mae'n hollbwysig bod y cais yn gweithredu mesurau lliniaru sŵn ac os gellir gweithredu mesurau lliniaru pellach i ostwng y lefel gradd ymhellach, fe'ch cynghorir i wneud hynny fel fod y safle ddim yn cynyddu'r lefel sŵn cefndir presennol. |
| Uned Bioamrywiaeth | Rhaid cydymffurfio gyda argymhellion Asesiad Ecolegol Cychwynnol ac Asesiad Ymlusgiad a gyflwynwyd fel rhan o'r cais. |
| Uned Draenio Tir | Ers y 7fed Ionawr 2019, mae angen systemau draenio cynaliadwy (SDC) i reoli dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu gydag oblygiadau draenio yn 100m2 neu fwy. Rhaid i systemau draenio fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.<br><br>Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDC (CCS) cyn y bydd gwaith adeiladu'n dechrau.<br><br>Oherwydd maint a natur y datblygiad bydd angen darparu cais i'r |

| | |
| --- | --- |
| | Corff Cymeradwy SDS i'w gymeradwyo cyn dechrau'r gwaith adeiladu. Mae'n ymddangos fod y datblygwr yn bwriadu draenio'r safle mewn modd cynaliadwy, ond hyd nes y gwneir cais i'r CCS nid oes sicrwydd y byddai'r cynllun y safle yn galluogi cydymffurfiaeth â'r gyfres lawn o safonau SDC cenedlaethol. Argymhellir ymgynghoriad gyda'r CCS. |
| Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd | Diolch am ymgynghori â ni ar y cais uchod. Cafodd y safle datblygu arfaethedig ei ymchwilio yn llawn fel rhan o'r cloddio archeolegol pan sefydlwyd Parc Bryn Cegin, yn 2005-2006. Felly, ystyrir nad oes unrhyw oblygiadau archeolegol ar gyfer y cynllun arfaethedig. |
| Swyddog Tan | Nid oes gan yr Awdurdod Tan unrhyw sylwadau i'w roi ynglŷn a mynedfa i gerbydau tan a chyflenwad dwr. Bydd gan yr Awdurdod Tan gyfle i gynnig sylwadau ar y mesuriadau diogelwch tan yn ystod y broses Ymgynghori Rheoliadau Adeiladu. |
| SP Energy Networks | Heb eu derbyn |
| Heddlu | Rwyf wedi cael y cyfle i adolygu'r Datganiad DAS; mae hwn yn nodi bod swm y CNG i'w storio ar y safle yn is na lefelau'r HSE ac yn unol â hynny nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar hyn o bryd. |
| Trafnidiaeth Cynulliad | Dim cyfarwyddyd. |
| CADW | Henebion Cofrestredig<br><br>CN153 Heneb a Chwrsws Henge<br><br>CN202 Grŵp Cytiau a Chaeau Hynafol Parc Gelli<br><br>CN252 Anheddiad Cytiau Crwn i'r GO o Dan-y-Marian<br><br>CN268 Anheddiad Cytiau Crwm Amgaeedig yn Cororion Rough<br><br>CN380 Traphont Cegin (Rheilffordd y Penrhyn)<br><br>CN393 Carnedd Gron Carnedd Howel<br><br>Parciau a Gerddi Cofrestredig<br><br>PGW (Gd) 40(GWY) Castell Penrhyn (gradd II*)<br><br>Safleoedd Treftadaeth y Byd |

Diwydiant Llechi Gogledd Cymru (enwebedig)

Bydd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys compownd pwmp a lleolir deuddeg ynys pwmpio tanwydd nwy mewn dwy res llorweddol o chwech o fewn y brif iard.

Bydd colofn TCC a goleuadau ar bob ynys er mwyn cynorthwyo â'r gweithrediad

yr offer ac yn darparu goleuadau sy'n ffocysu ar dasg pan fydd yn dywyll.

Bydd offer y compownd yn cael ei amgylchynu gan ffensys diogelwch gyda ffin ddeheuol y safle'n cael ei sicrhau gan ffens v-mesh du 2.4m.

Bydd y ffiniau i'r gogledd a'r dwyrain yn cael ei diogelu gyda ffens bren gaeedig acwstig 2.8m a gwaith plannu.

Mae'r asedau hanesyddol dynodedig uchod wedi'u lleoli y tu mewn i 3km o'r datblygiad arfaethedig, ond heblaw am yr asedau

sydd wedi'u cynnwys yn y Safle Treftadaeth y Byd (STyB) enwebedig, bydd topograffi, adeiladau a llystyfiant yn blocio'r holl olygfeydd

rhyngddynt. O ganlyniad, ni fydd y datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar osodiadau'r asedau hanesyddol dynodedig hyn.

Mae'r datblygiad arfaethedig yng ngosodiad Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a rhan Dyffryn Ogwen i Borth Penrhyn o'r Safle Treftadaeth y Byd enwebedig: Fodd bynnag, mae'r rhannau o'r STyB a allai fod â golygfeydd o'r datblygiad arfaethedig yn gysylltiadau trafnidiaeth ac nid yw'r golygfeydd ohonynt yn cyfrannu at eu harwyddocâd ac mae'n debygol y bydd unrhyw olygfeydd ohonynt i'r safle yn cael eu sgrinio'n sylweddol gan y llystyfiant presennol a'r ffensio acwstig arfaethedig a'i blannu cysylltiedig. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar osodiad y STyB.

Felly, nid oes gan Cadw unrhyw wrthwynebiadau.

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd un llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Wedi ei leoli yn rhy agos i dai a thrigolion.
- Mae problemau mygdarthau bysiau yma yn barod.
- Nid yw’r safle yn darparu swyddi
- Mae yna ddarpariaeth tanwydd HGV wedi ei leoli llai na milltir i ffwrdd.

## 5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae'r safle wedi'i leoli y tu allan i unrhyw ffin ddatblygu ond o fewn Stad Ddiwydiannol Parc Bryn Cegin sydd wedi'i warchod yn y CDLl ar y Cyd fel Safle Cyflogaeth. O fewn dynodiadau o'r fath y prif ddefnyddiau fydd defnyddiau B1, B2 a B8 ynghyd â rhai defnyddiau unigryw, ac mae’r safle yma yn rhan o un o brif safleoedd a ddynodwyd gan y Cynllun yng Ngwynedd oherwydd ei fod yn debygol o fod yn fwy deniadol i’r farchnad ac yn debygol o gael eu datblygu yn y tymor byr. Serch hyn mae’r safle yn wag yn bennaf ac felly mae digonedd o gyfleoedd ar gyfer busnesau B1, B2 a B8 eraill ddatblygu ar y safle.

5.2 Mae defnydd y bwriad gerbron yn disgyn o dan dosbarth defnydd unigryw, ac o ystyried fod yna nifer o blotiau gwag ar y safle a chan mai darpariaeth ar gyfer trafnidiaeth busnes fydd y bwriad ac na fydd y cyfleuster ar agor i'r cyhoedd, ystyrir bod yr egwyddor o leoli’r orsaf ym Mharc Bryn Cegin yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion polisïau PCYFF 1, PS13 a CYF1 o’r CDLl.

### Mwynderau gweledol

5.3 Mae’r safle yn ffurfio rhan o stad ddiwydiannol Bryn Cegin sydd wedi ei ddynodi ar gyfer defnyddiau diwydiannol sy’n disgyn o dan dosbarthiadau defnydd B1, B2, ac B8 yn bennaf. Mae’r mathau yma o ddatblygiadau yn debygol o gynnwys adeiladau a chyfarpar helaeth ac yn gallu bod yn fawr o ran arwynebedd llawr ac uchder.

5.4 Mae’r bwriad gerbron yn golygu darparu cyfarpar ar gyfer galluogi i loriau HGV codi tanwydd nwy o bympiau tanwydd cyffredinol. Mae’r rhannau uchaf o’r datblygiad yn cynnwys fent ar yr adeiladau cywasgwr a fydd yn mesur oddeutu 5m ar eu uchaf. Byddai’r adeiladau/cynhwysyddion eu hunain oddeutu 2.5-3m o uchder ac mae’r polion golau a chamerâu cylch cyfyng oddeutu 4.3m o uchder. Mae llystyfiant sylweddol rhwng y safle a’r brifffordd A5 sy’n rhedeg heibio, ac ni fydd y safle yn weladwy o fan cyhoeddus na’r Ardal Tirwedd Arbennig i’r de. Cydnabyddir fod yna 3 tŷ preswyl wedi ei leoli union ar ffin y safle, a bod y tai yma ar lefel sylweddol uwch na safle’r bwriad. Mae bwriad darparu ffens diogelwch ac acwstig ynghyd a thirweddu o gwmpas y safle. I’r perwyl hyn ac o gofio’r math o ddatblygiadau a ddisgwylir ar y stad yma, ni ystyrir fod y bwriad yn achosi effaith weledol sylweddol nac annerbyniol ar yr ardal.

5.5 Mae nifer o henebion, Castell Penrhyn (sy’n rhestredig Gradd II*) a Safle Treftadaeth y Byd Ardal Llechi wedi eu lleoli o gwmpas y safle. Mae CADW wedi cadarnhau na fydd y bwriad yn debygol o gael effaith andwyol ar y safleoedd yma o ganlyniad i lystyfiant a datblygiadau presennol.

5.6 I’r perwyl hyn felly, ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisïau PCYFF 2, 3 a 4 ynghyd ac PS20 ac AT1 o’r CDLl o ran effaith weledol.

### Mwynderau cyffredinol a phreswyl

5.7 Fel a nodir uchod, mae’r safle yn ffinio a chefnau 3 tŷ preswyl adnabyddir fel 1 i 3 Rhos Isaf sydd wedi eu lleoli i ddwyrain y safle a rhyngddo a’r A5. Cydnabyddir fod y tai ar lefel uwch ac mae bwriad lefelu safle’r cais fel bod wal gynnal rhyngddo a’r tai ynghyd a ffens acwstig ar ei ben. Byddai’r ffens acwstig yn gyfystyr a lefel bondo y tai preswyl cyfagos ac yn na’r cyfarpar uchaf ar y safle.

5.8 Mae asesiad sŵn a chynllun goleuo wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais sy'n nodi'r isod:

- Bydd y pympiau yn cael eu goleuo yn ystod oriau tywyll, ond dim ond yn ystod cyfnodau o waith bydd goleuadau'r compownd yn cael eu defnyddio.
- Bydd effaith y golau yn lleiafrifol oherwydd eu bod wedi eu canoli ar ardaloedd penodol (o dan y pympiau yn bennaf). Mae'r driniaeth ffin bwriedig (ffens a thirweddu) ynghyd a graddfa a lleoli'r goleuadau yn golygu na fydd yr y gorlif golau yn mynd heibio ffiniau'r safle, a bydd y gorlif hynny ar y ffiniau yn llai na golau lleuad.
- Mae'r asesiad sŵn wedi ei wneuthuro i ofynion BS4142/BS8233/Meini Prawf WHO ac yn cymryd ystyriaeth i sŵn weithgareddau o ganlyniad i loriau ar y blaengwrt ynghyd a'r holl gyfarpar ar y safle.
- Mae canlyniadau'r arolwg sŵn yn dangos bod y lefelau sŵn yn bennaf ar hyn o bryd yn cael ei ddylanwadu gan y llif traffig ar hyd yr A55, Gwibffordd Gogledd Cymru, sydd gerllaw ac i'r de o'r safle a'r A5 i'r dwyrain sy'n arwain i Fangor. Yn ystod y dydd mae'r llif traffig yn ddylanwad arwyddocaol a rheolaethol iawn ar y lefelau sŵn fodd bynnag, wrth adolygu'r data sŵn mae'n amlwg bod llif y traffig yn ystod y nos yn sylweddol is gydag isel lefelau sŵn cefndir a gofnodwyd ar y safle.

- Mae canlyniadau'r asesiadau yn dangos nad ddisgwylir i effeithiau'r sŵn gweithredol yr orsaf ail-lenwi â thanwydd gael unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn dibynnu ar y cyd-destun.
- Mae lefel y sŵn amgylchynol presennol yn gyson dros 45 dB LAeq yn ystod y dydd ac 38 dB(A) yn ystod y nos sy'n uwch na'r lefelau sŵn a gyfrifwyd o'r gweithrediad y cyfarpar ac felly gellir disgwyl iddo ddarparu rhywfaint o sŵn masgio defnyddiol a fydd yn lleddfu'r effaith.
- Mae'r asesiad yn dangos y byddai'r gwerthoedd sŵn mewnol y canllaw yn cael eu cyflawni'n hyd yn oed gyda ffenestri eiddo preswyl ar agor.

5.9 Ni dderbyniwyd ymateb Gwarchod Y Cyhoedd i'r asesiadau uchod ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ond ar sail canlyniadau asesiadau ac yn ddarostyngedig i gwblhau'r datblygiad yn unol â'r manylion a gyflwynwyd, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o gael effaith andwyol ar fwynderau'r trigolion cyfagos o ran effaith golau na sŵn.

5.10 Mae mesurau lliniaru effaith weledol y safle wedi eu trafod uchod ac ystyrir y byddai hyn yn ddigonol ar gyfer gwarchod mwynderau'r tai cyfagos hefyd.

5.11 I'r perwyl hyn, ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisïau PCYFF 2 a 3 o ran mwynderau cyffredinol a phreswyl.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.12 Mae safle'r cais yn elwa o bwynt mynediad annibynnol presennol trwy ffordd fynediad i'r gorllewin o'r plot. Er mwyn hwyluso datblygiad y safle a sicrhau ei fod yn addas i'r HGVs gael eu gwasanaethu, mae bwriad cael gwared ar y fynedfa hon a darparu dau fynediad pwrpasol. Bydd y trefniant mynediad / allanfa hwn yn caniatáu i gerbydau fynd i mewn ac allan o'r cyfleuster ar wahân gyda system unffordd wedi'i gosod o fewn y safle yn fewnol. Bydd cerbydau'n mynd i mewn drwy'r fynedfa ogleddol, llwybr tuag at y blaengwrt i dynnu i fyny yn yr ynysoedd pwmpio, ac yna allan trwy'r pwynt allanfa deheuol. Bydd y trefniant mynediad hwn yn sicrhau y gall cerbydau gwblhau y daith ail-lenwi fewnol lawn ar y safle gan ddefnyddio offer blaen yn unig. Ni fydd unrhyw gatiau mynediad na rhwystrau ac ni fydd unrhyw gerbydau yn ciwio ar y briffordd gyhoeddus i fynd i mewn i'r safle.

5.13 Mae datganiad trafnidiaeth wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ynghyd a Chynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu.

5.14 Nid yw'r Uned Drafnidiaeth wedi darparu ymateb ffurfiol ar gyfer y cais yma, ond derbyniwyd ymateb i'r ymholiad cyn-cyflwyno cais oedd yn codi nifer o bwyntiau ynglŷn â'r mynedfeydd newydd a defnydd o'r safle ar gyfer parcio dros nos. Mae trafodaethau pellach wedi cymryd lle cyn cyflwyno'r cais, ac mae'r asiant wedi darparu copïau o e-byst rhyngddo a'r Uned Drafnidiaeth yn cytuno ar y materion oedd i'w trafod.

5.15 I'r perwyl hyn, mae cadarnhad wedi ei dderbyn na fydd y safle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer parcio loriau dros nos, ac mae'r mynedfeydd newydd wedi eu culhau ar sail sylwadau'r Uned Drafnidiaeth ac mae cynllun dadansoddiad llwybr ysgubol wedi ei gyflwyno i gadarnhau fod y symudiadau'r loriau yn dderbyniol.

5.16 I'r perwyl hyn, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion polisïau PS4, TRA 2 a 4 o'r CDLl.

**Materion bioamrywiaeth**

5.17 Mae asesiad ecolegol cychwynnol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais sy'n nodi fod potensial i wrych sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer nythu adar ac ystlumod gael ei effeithio o ganlyniad i'r bwriad yma. O ganlyniad, mae'r asesiad yn cynnig y mesurau lliniaru isod:

- Rhaid i unrhyw waith clirio safle ddigwydd y tu allan i'r tymor nythu ac yn dilyn chwiliad llaw am ymlusgiaid.
- Rhaid darparu cynllun golau sydd wedi ei gytuno gydag ecolegydd
- Cynllun tirweddu i guddio golau cymaint a phosib
- Darparu bocsys nythu ar gyfer adar ac ystlumod.

5.18 Mae cynllun tirweddu a goleuo wedi eu darparu fel rhan o'r cais sy'n dderbyniol o ran diogelu mwynderau'r ardal a thrigolion cyfagos fel a nodir uchod, ond nid yw'n glir os yw'n addas o ran materion Bioamrywiaeth. Nid oes ymateb wedi ei dderbyn gan yr Uned Bioamrywiaeth ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ond ar sail y wybodaeth sydd i law, ystyrir y gallai'r bwriad fod yn dderbyniol yn ddarostyngedig i amodau i sicrhau fod y mesurau lliniaru yn cael eu cwblhau ar y safle ac i gytuno cynlluniau tirweddu a goleuo o flaen llaw.

5.19 I'r perwyl hyn, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol yn nhermau polisi AMG 5 o'r CDLl.

**Materion Archeolegol**

5.20 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi cadarnhau nad oes materion archeolegol ar y safle o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd ar adeg datblygu'r lleiniau. Ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol yn nhermau polisïau PS20 ac AT1 o'r CDLl felly.

**Materion cynaliadwyedd**

5.21 Mae'r bwriad ar gyfer darparu safle pwmpio tanwydd i lenwi loriau HGV gyda thanwydd nwy. Mae'r bwriad yn gweithio fel safle tanwydd arferol, ond ni fydd mynediad i'r cyhoedd, a bydd y cerbydau sydd wedi cofrestru o flaen llaw gyda'r cwmni yn cael mynediad i'r tanwydd drwy ffob awtomatig. Bydd y safle ar agor 24 awr y dydd.

5.22 Mae gwybodaeth wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais sy'n cadarnhau fod y tanwydd cael ei gysidro fel tanwydd adnewyddadwy amgen sy'n allyrru llai a fod loriau sy'n rhedeg ar y tanwydd yn darparu 85% llai o NOX a 75% llai o allyriadau C02.

5.23 Mae'r bwriad felly yn ymateb yn uniongyrchol i faterion cynaliadwyedd a newid hinsawdd ac yn golygu darpariaeth fwy eang o'r math yma o danwydd ar gyfer defnydd cenedlaethol. I'r perwyl hyn ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol yn nhermau polisïau PS5 ac PS6 o'r CDLl.

**Materion Iaith**

5.24 Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae'n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, lle mae'n berthnasol i'r cais hwnnw. Ategir hyn ymhellach gan bara 3.28 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 20.

5.25 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' (mabwysiedig Gorffennaf 2019) yn rhoi arweiniad pellach ar sut y disgwylir i ystyriaethau i'r iaith Gymraeg fod yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol.

5.26 Nodir fod yna rhai mathau penodol o ddatblygiadau ble fydd gofyn i'r bwriad fod yn cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Mae'r trothwyon o ran pryd y disgwylir cyflwyno Datganiad/Adroddiad wedi ei hamlygu ym Mholisi PS1 o'r CDLl ar y Cyd ynghyd a Diagram 5 o'r CCA. Nid yw'r bwriad yn fwy na'r trothwy sydd wedi ei osod yn y Polisi ar gyfer fod angen Datganiad Iaith Gymraeg.

5.27 Gan eithrio'r datblygiadau sy'n cyrraedd y trothwyon ar gyfer cyflwyno Datganiad/Asesiad ar Effaith Iaith Gymraeg a nodir ym Mholisi PS1, fe roddir arweiniad o ran y mathau o geisiadau perthnasol ble fo angen rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn Atodiad 5 (Y Drefn Sgrinio) o'r CCA (rhan Ch i Dd). Mae'r arweiniad a gynhwysir o fewn Atodiad 5 yn nodi y dylai pob datblygiad manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol ble nad oes angen cyflwyno Datganiad/Asesiad iaith Gymraeg ddangos sut fo ystyriaeth wedi ei roi i'r iaith.

5.28 Nid oes gwybodaeth wedi ei gyflwyno gan yr asiant o ran effaith y bwriad ar yr Iaith, ond nodir yn dilyn y cyfnod adeiladu, na fydd cyflogaeth staff yn digwydd ar y safle ei hun. Bydd y safle yn cynnwys arwyddion amrywiol, ac er nad oes manylion wedi eu darparu fel rhan o'r cais yma ac na fydd rhai arwyddion angen caniatâd pellach, mae posib gosod nodyn ar unrhyw ganiatâd cynllunio yn sicrhau defnydd o arwyddion mewnol dwyieithog. Bydd arwyddion sy'n destun cais hysbyseb yn derbyn asesiad pellach ar y pryd.

5.29 Gan na fydd y bwriad yn darparu cyflogaeth hirdymor, ni ellir cadarnhau fod effaith hirdymor y datblygiad yn gadarnhaol i'r Iaith Gymraeg, ond ar yr un pryd ni ellir ystyried fod yn ac effaith negyddol ychwaith. Byddai unrhyw effaith yn ystod y cyfnod datblygu'r safle yn fyrdymor.

5.30 I'r perwyl hyn, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd Iaith Cymuned nad ellir ei osgoi neu i liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio

mecanwaith cynllunio priodol ac felly ni ystyrir fod y bwriad yn groes i bolisi PS20 na’r CCA yn yr achos yma.

**Unrhyw ystyriaethau eraill**

5.31 Nodir bod y tir wedi ei gydnabod fel tir gradd 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC). Mae paragraff 3.58 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021) yn datgan:

*“Tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC)16 yw’r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol.”*

Mae paragraff 3.59 PCC yn ategu:

*“Wrth ystyried y drefn chwilio ac ym mholisïau’r cynllun datblygu a’r penderfyniadau rheoli datblygu, dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o’r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, onid oes angen sy’n drech na dim arall am y datblygiad, ac os nad oes tir a ddefnyddiwyd o’r blaen neu dir o raddau amaethyddol is ar gael, neu os oes gan y tir o radd amaethyddol is werth amgylcheddol a gydnabyddir drwy ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol, a bod hynny’n drech na’r ystyriaethau amaethyddol. Os oes angen datblygu tir o raddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, dylid cyfeirio’r datblygiad at y tir o’r radd isaf.”*

5.32 Mae’r angen i amddiffyn y tir amaethyddol gorau yn cael ei amlygu ym mholisi strategol PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd, sy’n datgan y caniateir cynigion dim ond pan ellir dangos gyda thystiolaeth briodol eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn ac wedi ymateb yn briodol i gyfres o bwyntiau gan gynnwys:

*“Diogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, hyrwyddo rhandiroedd, cefnogi cyfleoedd i gynhyrchu bwyd yn lleol ac amaethu lleol er mwyn lleihau cyfraniad yr ardal i filltiroedd bwyd (pwynt 6)”*

5.33 Mae safle diwydiannol Bryn Cegin wedi'i ddiogelu fel prif safle cyflogaeth yn unol â Pholisi CYF 1 o'r CDLl ar y Cyd. Mae prif safleoedd cyflogaeth yn safleoedd sydd fwyaf tebygol o fod yn ddeniadol i'r farchnad ac sy'n debygol o gael eu datblygu yn y tymor byr. Fel sydd wedi ei nodi uchod mae’r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion y polisi yma ac mae angen ar gyfer y datblygiad yma yn y safle yma oherwydd ei gysylltiadau trafnidiaeth.

**Yr ymateb i’r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.34 Derbyniwyd sylwadau gan y cyhoedd sydd wedi eu nodi yn y tabl ymatebion i ymgynghoriadau uchod. Mewn ymateb i’r sylwadau yma, mae’r asiant wedi darparu’r isod:

- Rydym yn deall bod gorsaf fysiau Arriva y cyfeirir ati dros 1km i ffwrdd i'r gogledd orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Llandygai ac nad yw'n gymharol nac yn cael ei hystyried yn ddylanwad i'r cynnig / safle.
- O ran manteision cyflogaeth, ystyrir bod y cynnig yn cael effaith gwbl gadarnhaol ar Barc Bryn Cegin. Mae'r llain ei hun wedi bod yn wag ers cryn amser ochr yn ochr â'r parc ehangach sydd hefyd yn cael ei danddefnyddio. Bydd yr orsaf yn gwella seilwaith a chyfleusterau’r parc er budd busnesau presennol a bydd hefyd yn denu meddianwyr newydd i’r ystâd.

- Mae'r cymydog hefyd yn cyfeirio at orsaf betrol lleol, fodd bynnag mae'r datblygiad yn cynnig hollol wahanol trwy gyflenwi Biomethane (Bio-CNG) yn unig fel tanwydd amgen allyriadau is o ffynonellau adnewyddadwy. Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar allyriadau ac ansawdd aer yn lleol ac ymhellach i ffwrdd gan fod tryciau sy'n rhedeg Bio-CNG yn gweithredu gyda hyd at 85% yn llai o NOX a 75% yn llai o allyriadau CO2. Mae peiriannau Bio-CNG hefyd 50% yn dawelach.
- Bydd yr orsaf ar agor i fusnesau lleol (ond bydd angen cofrestru o flaen llaw) ac yn rhoi cyfle i roi hwb i'r safle gan ddarparu buddsoddiad ariannol sylweddol.

5.35 Ystyrir fod sylwadau'r cyhoedd wedi derbyn sylw priodol yn yr adroddiad yma ac nid yw'r sylwadau yn newid argymhelliad y cais yn yr achos yma.

**6. Casgliadau:**

6.1 Mae'r bwriad ar gyfer darparu cyfleuster tanwydd bio-nwy naturiol wedi ei gywasgu ar gyfer cerbydau ar safle segur o fewn stad diwydiannol Bryn Cegin. O ganlyniad i'r asesiad uchod sy'n cyfeirio at yr holl bolisïau cynllunio cenedlaethol a lleol a materion cynllunio perthnasol, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion y polisïau a chanllawiau perthnasol.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu – amodau

1. 5 mlynedd
2. Unol a'r cynlluniau
3. Cwblhau'r fynedfa yn unol â'r cynlluniau
4. Dim loriau yn parcio dros nos
5. Cynllun tirweddu
6. Cynllun goleuo
7. Dwr Cymru

Nodiadau

Priffyrdd

SUDS